Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Laura Taylor
Ysgol Gynradd Gatholig Rufeinig Sant Joseff
Heol Sili
Penarth
CF64 2TQ

01/04/2025

Annwyl Laura

**Ymweliad interim:** Mawrth 2025

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Gynradd Gatholig Rufeinig Sant Joseff yn ddiweddar i ystyried sut mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd o ran mynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad craidd ym mis Mehefin 2023.

Isod, ceir crynodeb o gynnydd yn erbyn dau o'r argymhellion o arolygiad craidd yr ysgol.

Yn ystod yr ymweliad, cafodd y tîm gyfle i:

- arsylwi'r dysgu mewn dosbarthiadau
- siarad â disgyblion am eu dysgu
- cyfarfod ag athrawon ac arweinwyr
- craffu ar ddogfennau

## Ffocws yr ymweliad

### Mireinio prosesau hunanwerthuso a gwella i sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar feysydd pwysicaf gwella'r ysgol

- Ers yr arolygiad craidd, mae arweinwyr yr ysgol wedi culhau ffocws prosesau hunanwerthuso a gwella. Maent yn canolbwyntio'n glir ar y blaenoriaethau pwysicaf a'r rhai a fydd yn cael yr effaith fwyaf ar ddeilliannau disgyblion.

- Mae gan aelodau o'r uwch dîm arweinyddiaeth gyfrifoldeb cyffredinol am flaenoriaethau'r ysgol. Maent yn arwain ar arsylwi ansawdd yr addysgu a'r dysgu, tra bod staff eraill yn canolbwyntio ar weithgareddau monitro ysgol gyfan buddiol, gan gynnwys craffu ar lyfrau a gwerthuso cynnydd disgyblion. Mae hyn yn cadw prosesau monitro yn hylaw ac yn arwain at werthusiadau craff sy'n gyrru gwelliant yr ysgol parhaus yn dda.
- Mae dysgu proffesiynol ar gyfer staff, gan gynnwys ymweliadau ag ysgolion eraill, ymchwil bersonol a chydweithio rhwng cyfoedion, yn cyd-fynd yn agos â blaenoriaethau'r ysgol. Mae hyn yn golygu bod pob un o'r arweinwyr a'r staff, dros gyfnod, yn datblygu'r wybodaeth, y medrau a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen arnynt i gyfrannu'n effeithiol at hunanwerthuso a gwelliant yr ysgol.
- Erbyn hyn, mae llywodraethwyr yn cyfrannu'n rheolaidd at weithgareddau hunanwerthuso. Maent yn ennill tystiolaeth uniongyrchol trwy gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau fel teithiau dysgu, gwrando ar ddysgwyr a thrafodaethau proffesiynol â staff. Mae hyn yn eu galluogi i gynnig cymorth defnyddiol a her briodol i arweinwyr yr ysgol.

## Gwella cysondeb yr addysgu a'r ddarpariaeth i sicrhau eu bod yn briodol i gyfnod ac oedran datblygiad disgyblion, ac yn datblygu annibyniaeth disgyblion yn llwyddiannus

- Mae arweinwyr a staff wedi gweithio'n dda i ddatblygu ymagwedd gyson at addysgu ar draws yr ysgol. Mae hyn wedi bod yn effeithiol, ar y cyfan, er enghraifft wrth ddatblygu ymagwedd yr ysgol o ran defnyddio strategaethau asesu ar gyfer dysgu. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio holi'n dda i wirio dealltwriaeth disgyblion a datblygu eu geirfa yn effeithiol.
- Mae arweinwyr yn blaenoriaethu datblygiad medrau annibynnol disgyblion. Mae staff yn ymgymryd â dysgu proffesiynol gwerthfawr, ac yn elwa ar ymweliadau ag ysgolion eraill i arsylwi arfer o ansawdd uchel. Mae defnyddio trioedd addysgu yn galluogi staff i arsylwi arfer effeithiol yn yr ysgol, ac yn datblygu diwylliant cadarnhaol a chefnogol i wella'u haddysgu.
- At ei gilydd, mae staff yn gwneud defnydd da o'r amgylchedd dysgu dan do ac yn yr awyr agored. Yn y dosbarthiadau ieuengaf, mae staff yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion wneud dewisiadau am eu dysgu. Yn yr achosion mwyaf effeithiol, mae hyn yn hyrwyddo dysgu annibynnol trwy chwarae ac yn datblygu synnwyr chwilfrydedd disgyblion. Mae arweinwyr yn cydnabod bod angen datblygu cysondeb yn yr ymagwedd hon ar draws dosbarthiadau'r disgyblion ieuengaf.
- Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hŷn yn gwneud dewisiadau synhwyrol pan fyddant yn gweithio'n annibynnol, ac yn chwilio am ddewisiadau eraill yn lle gofyn i oedolyn pan fydd angen cymorth arnynt yn eu dysgu. Maent wedi eu cymell, mae

ganddynt agweddau da at ddysgu ac yn datblygu eu medrau dysgu'n annibynnol yn dda. Mae ffocws yr ysgol ar ymholi wedi'i arwain gan ddisgyblion yn galluogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion i arwain a chymryd cyfrifoldeb am eu dysgu, pan fo'n briodol, a chymhwyso'u medrau mewn amrywiaeth o gyd-destunau pwrpasol.

- Mae athrawon yn defnyddio ystod o arsylwadau ac asesiadau i lywio'u cynllunio. Maent yn gwneud defnydd buddiol o feini prawf llwyddiant clir sy'n adeiladu'n effeithiol ar wybodaeth a medrau presennol disgyblion. Yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau, mae staff yn darparu lefel dda o her sy'n diwallu anghenion disgyblion unigol a grwpiau o ddysgwyr yn dda.

Mae arweinwyr a staff wedi gweithio'n dda i fynd i'r afael â'r argymhellion hyn ac yn cydnabod yr agweddau sydd angen eu datblygu ymhellach.

Gellir dod o hyd i adroddiad craidd diweddaraf yr ysgol a mwy o wybodaeth am y broses a diben ymweliadau interim ar ein gwefan: http://www.estyn.gov.wales/provider/6733368

Yn gywir

LMiles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol